| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 6/2/2024 | Neb | **Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Huw P Roberts (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Dewi Wyn Jones, Rhodri Jones, Alwyn M Roberts,<br>Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)<br>**Cyhoedd:** neb yn bresennol.<br>**Ymddiheuriadau:** Llinos Edwards, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones | **Gwasanaeth bws T3:** cytunwyd **i** wahodd Lee Robinson a Gethin George (a gwybodaeth i Mabon ap Gwynfor) i gyfarfod rhai o'r Cynghorwyr yn ystod y dydd i drafod ymhellach.<br>**Triathlon:** Cytunwyd i wahodd y Trefnydd i drafod manylion a safleoedd gyda Cynghorwyr sydd hefyd yn gyfarwydd a stiwardio.<br>**Cytunwyd** i anfon i fynegi diddordeb mewn creu ardal dywyll.<br>**Cytunodd** y Cyngor i'r cynllun a anfonwyd gan Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Cyngor Gwynedd, sef "Cynllun Gwaharddau Parcio Arfaethedig – B4403 wrth Cyffordd Tŷ'n Ddôl, Llanuwchllyn".<br>**Cytunwyd** i ofyn i Swyddog Datblygu Cymunedau Cyngor Gwynedd i chwilio am grant i wneud arolwg o barcio yn y pentref er mwyn cael datrysiadau synhwyrol.<br>**Cytunodd** y Cyngor mewn egwyddor i holi beth yw'r posibiliadau a'r cyfyngiadau parthed newidiadau i'r Eglwys.<br>**Ariannol:** Derbyniadau ac anfonebau'r mis: cytunwyd i'w talu (taliadau Cytundebau).<br>**Cynllunio:** NP5/71/53D Ty'n Llechwedd – manylion diwygiedig 17/1/24. **Cytunwyd** i anfon eto gan ddweud fod y Cyngor yn glynu at yr hyn a gytunwyd arno yng nghyfarfod 3ydd Hydref 2023, Cofnod 2960 (*ac a gadarnhawyd ers hynny yng nghyfarfod Tachwedd 2023 ac eto yng nghyfarfod Rhagfyr 2023*) sef GWRTHWYNEBU'R cais.<br>Cadarnhawyd cymeradwyaeth Cynghorwyr (trwy e-bost) i gais NP5/71/AD29B- Caniatâd Hysbysebion i osod panel gwybodaeth am Daith Mari Jones, Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Llanuwchllyn<br>**Prosiect Coed Yw:** Cynigwyd nyrs y fynwent fel safle poib.<br>**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 5/3/2024 yn y Neuadd Bentref. |